

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Beauty Oasis Salon and Day Spa, New
Inn, Pont-y-pŵl

Dyddiad yr arolygiad: 2 Chwefror 2023

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mai 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-931-9

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
4.	Y camau nesaf	16
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	17
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	18
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Beauty Oasis Salon and Day Spa, New Inn, Pont-y-pŵl ar 2 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd Beauty Oasis Salon and Day Spa yn ymrwymedig i roi triniaeth i'r cleifion mewn amgylchedd croesawgar a modern. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Roedd yn ymrwymedig i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad o ansawdd ac roedd adborth y cleifion yn adlewyrchu hyn; gyda phob un o'r cleifion yn dweud bod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Hysbysu'r cleifion am ganlyniadau'r adborth a geir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd croesawgar a modern
- Adborth cadarnhaol gan gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd trefniadau addas ar waith i gynnal a chadw'r cyfarpar laser / goleuni pwls dwys (IPL) ac i sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel. Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau da yn amlwg.

Roedd trefniadau addas ar waith i gynnal a chadw'r cyfarpar laser a sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel.

Gwelsom fod system cofnodion cleifion effeithiol ar waith, a oedd yn rhoi'r wybodaeth briodol i'r cleifion cyn ac ar ôl y driniaeth ac yn cofnodi eu cydsyniad i driniaeth.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Gwelsom nad oedd yr hyfforddiant ar gyfer dau weithredwr laser yn gyfredol ac mai yn 2017 y gwnaethant gwblhau hyfforddiant ddiwethaf.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Sicrhau bod yr hyfforddiant diogelu yn gyfredol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Cadw cofnodion da.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y rheolwr cofrestredig yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn wybodus o ran y triniaethau a ddarperir ac roedd yn awyddus i gynnal a datblygu dysgu a datblygiad y tîm ehangach.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Diweddarau ac adolygu polisiau a gweithdrefnau yn rheolaidd
- Cydnabyddiaeth am eu gwasanaeth i gwsmeriaid mewn digwyddiad gwobrau lleol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 14 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dywedodd pob un o'r 14 o gleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

“Triniaeth a gwasanaeth rhagorol.”

“Proffesiynol a dymunol iawn.”

Diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gofyn i'r cleifion ddarparu hanes meddygol cynhwysfawr cyn eu triniaeth gychwynnol, ac eto cyn unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau fod yr hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf a gweithredwr y laser.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion eu bod yn cwblhau ffurflen hanes meddygol cyn cael triniaeth.

Urddas a pharch

Dywedwyd wrthym fod yr ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin er mwyn sicrhau bod trafodaethau yn breifat ac yn gyfrinachol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai cleifion newid, pe bai angen, ar eu pen eu hunain yn yr ystafell drin.

Dywedodd pob un o'r cleifion fod mesurau ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roeddent hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i'r cleifion eu cadw. Roedd y ddau yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Roedd gan y clinig wefan a oedd yn darparu gwybodaeth ar y triniaethau sydd ar gael.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael gwybod cost y driniaeth cyn i'r driniaeth ddechrau. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent wrth wneud penderfyniadau am eu triniaeth.

Dim ond yn Saesneg roedd y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth ar gael. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn y lleoliad yn siarad Cymraeg. At hynny, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw alw am gyfieithiadau ar gyfer ieithoedd eraill ar hyn o bryd.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd y ffurflen gydsyniad, yr oedd yn ofynnol i'r cleifion ei chwblhau cyn pob triniaeth, yn cynnwys gwybodaeth addas. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y cleifion yn llofnodi'r ffurflenni cydsyniad a'u bod yn cael eu cydlofnodi gan y rheolwr cofrestredig.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi llofnodi ffurflen cydsyniad cyn cael triniaeth. Nodwyd ganddynt fod y staff yn esbonio iddynt beth roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a'u bod yn gwrando ar y claf ac yn ateb ei gwestiynau.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a chawsom sicrwydd bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am y risgiau a'r buddiannau, yn ogystal â chanlyniadau tebygol y driniaeth dan sylw.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a buddiannau'r opsiynau hyn. Roeddent hefyd yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol. Gweler isod rhai o'r sylwadau a gafwyd am ofal y cleifion:

“Bob amser yn lân, cyfeillgar a phroffesiynol! Maent bob amser yn rhoi arweiniad a chynghor ar driniaethau ac ôl-ofal.”

“Rhagorol o'r cychwyn cyntaf.”

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y clinig wedi'i leoli mewn ystafell drin ar yr islawr a oedd mewn cyflwr da. Roedd mynediad i bobl â nam ar eu symudedd yn gyfyngedig. Fodd bynnag, dywedodd y clinig ei fod yn darparu manylion darparwr amgen i gleientiaid nad oeddent yn gallu cael mynediad i'r safle, pe byddai angen.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig ddealltwriaeth o'r ffordd y byddai'n diwallu anghenion pob grŵp cleifion. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn

cofnodi dewisiadau a dymuniadau'r cleifion er mwyn diogelu eu hurddas a'u hawliau. At hynny, dywedwyd wrthym nad oedd y clinig yn gwahaniaethu rhwng cleifion a bod nifer o gleifion trawsryweddol yn cael eu trin yn y clinig hefyd.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i gael adborth cleifion, fel modd i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Gallai'r cleifion roi adborth drwy holiaduron cleifion ar ddiwedd pob triniaeth ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Gellid rhoi adborth a sylwadau yn ddiennw hefyd. Dywedwyd wrthym fod arolygon boddhad cleientiaid yn cael eu rhoi i 10% o'r cleifion a'u bod yn anfon e-bost at gleifion ar ôl pob apwyntiad er mwyn iddynt roi barn ar eu hymwelid â'r clinig a rhoi sylwadau fel rhan o'r feddalwedd trefnu apwyntiad.

Rhoddyd dadansoddiad o'r adborth i ni o'r adolygiadau a gasglwyd dros y pedair blynedd ers i'r clinig gynnig y driniaeth IPL gyntaf. Nododd y dadansoddiad fod y rhan fwyaf o'r adborth a gafwyd yn nodi bod y clinig yn uwch na'r cyfartaledd ac yn rhagorol. Roedd y dadansoddiad hefyd yn cyfeirio at gost triniaethau, gan nodi nad oedd y prisiau wedi newid ers i'r gwasanaeth ddechrau.

Argymhellwyd y dylai'r clinig ddangos y wybodaeth hon yn yr ystafell drin ar ffurf bwrdd "dywedoch chi, gwnaethom ni", yn ogystal â chynnwys y wybodaeth yn y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod trefniadau cynnal a chadw addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y rheolwr cofrestredig a phobl a oedd yn ymweld â'r safle.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer diogelwch tân a gwelsom fod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu'n flynyddol a bod arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân. Roedd asesiadau risg tân ar waith, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd gwiriadau o'r cyfarpar tân ac ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roeddent wedi'u nodi yn y dyddiadur.

Gwelsom dystiolaeth fod profion wedi'u cynnal ar yr offer cludadwy. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gwiriad weirio trydanol yr adeilad wedi cael ei gynnal yn y pum mlynedd diwethaf.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael ac roedd tri gweithredwr laser wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus iawn. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau sydd ar waith gyda'r rheolwr cofrestredig ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol i ddiogelu cleifion rhag croes-heintio.

Gwelsom fod bin offer miniog yn cael ei storio'n briodol yn y clinig. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol a gwelsom fod contract ar waith gyda chlodwr gwastraff cymeradwy.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut roedd trefniadau rheoli heintiau yn cael eu rheoli cyn, yn ystod ac yn dilyn apwyntiadau'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys mesurau hylendid dwylo priodol a diheintio'r cyfarpar a'r gwelyau triniaeth ar ôl iddynt gael eu defnyddio.

Nododd y cleifion yn yr holiadur eu bod yn teimlo bod y lleoliad yn lân a bod gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio â gofynion COVID-19 i'w gweld.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod polisi diogelu oedolion a phlant ar waith i'w ddilyn pe byddai unrhyw bryderon diogelu. Roedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r awdurdod lleol.

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu rhai triniaethau i gleifion 16 oed a throsodd. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn gofyn am ganiatâd rhiant i roi triniaeth i gleifion 16 ac 17 oed.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr hyfforddiant diogelu ar gyfer y gweithredwyr laser yn gyfredol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Nodwyd gennym fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion wrth ddefnyddio'r peiriant laser. Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau, a oedd yn rhoi cymorth a chynghor ar ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel. Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o sut i gysylltu â'r unigolyn hwn pe bai angen cyngor ar ddefnyddio'r cyfarpar laser yn ddiogel. Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r rheolau lleol yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn cadarnhau eu bod yn dal i fod yn addas.

Roedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu bob blwyddyn a chafodd ei wasanaethu ddiwethaf ym mis Ionawr 2023.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion, ymwelwyr a'r gweithredwyr. Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am gael gweld tystiolaeth bod pob gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer triniaethau laser. Mae'n ofynnol i weithredwyr gwblhau'r hyfforddiant hwn cyn iddynt ddefnyddio'r peiriannau laser ac mae'n rhaid iddynt ail-wneud yr hyfforddiant bob tair i bum mlynedd. Gwelsom mai yn 2017 yr oedd dau o'r gweithredwyr laser wedi cwblhau'r hyfforddiant ddiwethaf. Roedd angen gwneud gwelliannau yn y maes hwn ar unwaith. Ymdriniwyd â hyn drwy broses hysbysiad diffyg cydymffurfio AGIC. Cyfeirir at hyn yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod pob gweithredwr wedi cael hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriant laser ar sut i'w weithredu'n ddiogel.

Roedd clo wedi'i osod ar ddrws yr ystafell drin er mwyn sicrhau urddas a diogelwch cleifion yn ystod triniaethau. Roedd arwyddion priodol wedi'u gosod ar ddrws yr ystafell drin er mwyn rhybuddio pobl i beidio â mynd i mewn pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi cwblhau asesiad risg amgylcheddol er mwyn nodi a lliniaru unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio'r peiriant laser ac amgylchedd yr ystafell drin.

Roedd angen i'r cleifion gael prawf croen o leiaf 48 awr cyn iddynt gael triniaeth. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hyn yn ofynnol ar gyfer pob triniaeth a gwelsom fod y profion hyn yn cael eu cofnodi yng nghofnod y cleifion. Dywedodd pob claf ei fod wedi cael prawf croen er mwyn penderfynu ar osodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser cyn cael triniaeth.

Roedd gwybodaeth ôl-ofal ar gael i'r cleifion a dywedodd pob claf wrthym ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal heintiau / hwyluso'r broses wella ac arweiniad clir o ran sut i edrych am arwyddion a symptomau o haint.

Ni ddywedodd unrhyw rai o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael adweithiau andwyol ar ôl triniaeth.

Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da. Roedd cofrestr gynhwysfawr o driniaethau cleifion hefyd yn cael ei chadw'n briodol.

Roedd y pum cofnod a welsom yn cynnwys digon o fanylion ac yn cael eu cynnal yn addas ar gyfer cleifion newydd a chleifion a oedd yn dychwelyd, a hynny mewn modd cyson a chlr.

Nodiadau papur oedd y rhan fwyaf o gofnodion y cleifion a gwelsom eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo. Roedd rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am y cleifion yn cael ei chadw'n electronig, ac roedd y wybodaeth hon wedi'i diogelu â chyfrinair.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith yn y gwasanaeth, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i bolisiau neu weithdrefnau wrth iddynt ddigwydd ac yn ystod cyfarfodydd staff. Gwelwyd cofnodion y tri chyfarfod staff diwethaf a oedd yn cadarnhau hyn.

Rhoddwyd gwybod i ni gan y rheolwr cofrestredig bod llinellau atebolrwydd clir yn y clinig, ac roedd staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Cadarnhawyd fod gan y clinig yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'i fod yn gyfredol.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o wobrau roedd y salon wedi'u hennill yn ddiweddar. Roedd y rhain yn cynnwys enillydd aur gwobrau gwasanaethau cwsmeriaid yng ngwobrau salon Prydain am salon gorau'r flwyddyn, a gwobr gwasanaeth cwsmeriaid South Wales Argus.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses gwyno a gwelsom fod y weithdrefn yn briodol, a bod AGIC wedi'i rhestru fel pwynt cyswllt ychwanegol. Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb i hysbysu AGIC am unrhyw ddigwyddiad difrifol. Roedd manylion y weithdrefn gwyno hefyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Roedd gan y gwasanaeth system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon / cwynion ar ôl triniaeth.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystiolaeth o broses sefydlu gynhwysfawr yr oedd yn rhaid i'r staff ei dilyn pan fyddent yn cael eu cyflogi gyntaf yn y clinig. Gwelsom fod arfarniadau blynyddol y gweithredwyr laser yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod y broses yn cynnwys diweddariadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Nododd y rheolwr cofrestredig y byddai'n ystyried unrhyw geisiadau am hyfforddiant gan y staff, os oedd angen yr hyfforddiant hwnnw.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses recriwtio a oedd yn cael ei dilyn cyn i unrhyw aelodau newydd o staff ymuno â'r clinig. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi priodol a thystiolaeth o gymwysterau perthnasol cyn darparu unrhyw driniaethau. Nododd y rheolwr cofrestredig fod pob cyflogai presennol wedi cael ei recriwtio o'r coleg lleol, yr oedd ganddo gysylltiadau â'r clinig. Gwelsom dystiolaeth fod gan y rheolwr cofrestredig a phob aelod o'r staff dystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd.

Roedd y staff yn darllen ac yn llofnodi polisïau i ddangos eu bod wedi eu deall fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Beauty Oasis Salon and Day Spa

Dyddiad yr arolygiad: 2 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob unigolyn sy'n gweithredu'r dyfeisiau laser wedi cael hyfforddiant craidd gwybodaeth cyfredol a gaiff ei ddiweddarau bob tair i bum mlynedd. Ni chaniateir i unrhyw berson weithredu'r dyfeisiau laser nes y bydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.	Rheoliadau 45 (3) (a-e), Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Trefnwyd cwrs Craidd Gwybodaeth ac mae'r staff wrthi'n ei astudio ar hyn o bryd. Byddant yn ei gwblhau'n fuan. Mae dyddiadau adnewyddu'r hyfforddiant craidd gwybodaeth ar gyfer y gweithredwyr eraill wedi'u nodi yn y dyddiadur.	Sarah Henson	27 Chwefror 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Sarah Henson

Swydd: Perchennog / Cyfarwyddwr

Dyddiad:

12 Chwefror 2023

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Beauty Oasis Salon and Day Spa

Dyddiad yr arolygiad: 2 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff canlyniadau adborth a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r adborth hwnnw eu dangos yn y clinig a'u cynnwys yn y canllaw i gleifion.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 5, Ymgysylltu â Dinasyddion a Cheisio Adborth, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 19	Gellir gweld yr holl adborth yn ein Canllaw i Gleifion ac mae'r wybodaeth ar gael i gleientiaid ei gweld yn ystafell y clinig.	Sarah Henson	Bydd yr holl adborth a gafwyd ac unrhyw adborth a ddiweddarwyd ar gael bob blwyddyn ar ôl iddo gael ei adolygu.
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant diogelu, yn gyfredol ac yn cael ei gwblhau mewn modd amserol.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 25, Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol	Caiff yr holl hyfforddiant ei ddiweddarau bob tair i bum mlynedd a chaiff hyfforddiant gloywi ei gwblhau bob blwyddyn. Mae'r holl hyfforddiant presennol wedi'i gwblhau ac	Sarah Henson	Yr holl hyfforddiant presennol wedi'i gwblhau. Dyddiadau adolygu bellach ar waith yn y dyddiadur. Caiff hyfforddiant

	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20 (2) (a)	mae'r hyfforddiant pellach wedi'i nodi yn y dyddiadur i'w adolygu pan fo angen.		gloywi blynyddol ei gwblhau gyda'r tîm.
--	---	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sarah Henson

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 16 Mawrth 2023